**From:** [redacted]
**To:** EED Forward Planning; EED Forward Planning
**Subject:** Gwrthwynebiad Cynnwys Tir Clos Benallt Fawr yn y Cynllun datblygu lleol
**Date:** 26 June 2026 17:41:41

You don't often get email from [redacted] Learn why this is important

**Caution:** This is an external email and did not originate from within the Council. Please take care when clicking links or opening attachments. When in doubt, use the 'Report Message' button.

**Rhybudd:** E-bost allanol yw hwn ac nid oedd yn tarddu o'r Cyngor. Byddwch yn ofalus wrth glicio dolenni neu atodiadau agoriadol. Pan fyddwch yn ansicr, defnyddiwch y botwm 'Report Message'.

## Gwrthwynebiad i Gynnwys Tir Clos Benallt Fawr yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

**Safle:** Tir y tu ôl i Clos Benallt Fawr, Fforest (SR/069/001 a SR/069/003)

Dymunaf gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i gynnwys safleoedd SR/069/001 a SR/069/003 yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin.

Nid wyf yn credu bod angen datblygu'r tir hwn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dweud o'r blaen nad oes angen mwy o dir ar gyfer tai yn ardal Fforest a'r Hendy. Dylid defnyddio'r tai gwag sydd eisoes ar gael ledled y sir cyn dyrannu tir newydd. Pan gafodd estyniad Clos Benallt ganiatâd, dywedwyd mai cartrefi i bobl leol oedd y bwriad. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos mai dyna sydd wedi digwydd.

Fel teulu Cymraeg, rydym wedi gweld y Gymraeg yn dirywio yn ein cymuned dros y blynyddoedd diwethaf. Ychydig iawn o'r bobl sydd wedi symud i'r datblygiad newydd sy'n siarad Cymraeg, ac mae'n debygol y bydd datblygiad pellach yn gwaethygu hyn. Dylai'r Cyngor edrych yn ofalus ar effaith unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg a defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf cyn gwneud penderfyniad.

Mae'r tir hefyd yn anaddas ar gyfer adeiladu. Mae'n dir gwlyb gyda phroblemau draenio ac mae ffynhonnau tanddaearol yn cadw'r tir yn wlyb drwy'r flwyddyn. Yn ystod adeiladu'r datblygiad diwethaf yn Clos Benallt, cafwyd problemau gyda rhai sylfeini yn suddo ac roedd angen gwneud gwaith ychwanegol. Mae'r tir hefyd yn rhedeg i lawr tuag at afon Llwchwr, sydd ag enw da am lifogydd. O dan TAN 15, dylai'r Cyngor sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cynyddu'r risg o lifogydd na phroblemau dŵr wyneb. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan

fod y system ddraenio yn y datblygiad diweddar eisoes wedi gorlifo.

Mae traffig yn broblem fawr yn yr ardal. Mae'r datblygiad diweddar wedi dod â mwy o geir, ac mae'r A48, yr A4138 a Fforest Road eisoes yn brysur iawn. Mae mynediad i Clos Benallt yn anodd ar adegau, a bydd mwy o dai yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

Mae'r safle hefyd yn agos at Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Byddai adeiladu ar y tir hwn yn niweidio bywyd gwyllt ac yn golygu colli tir amaethyddol a rhan o gymeriad gwledig yr ardal.

Fel preswylydd lleol, cefais brofiad o'r aflonyddwch yn ystod y datblygiad diwethaf. Roedd sŵn adeiladu, traffig trwm a lorïau yn ciwio gyda'u peiriannau ymlaen am gyfnodau hir. Cafodd hyn effaith ar ansawdd bywyd y trigolion, ac mae'n debygol y byddai'r un peth yn digwydd eto.

Yn fy marn i, mae Fforest a'r Hendy eisoes wedi gweld digon o ddatblygu. Nid yw'r ffyrdd na'r seilwaith lleol yn gallu ymdopi â mwy o dai. Mae datblygiadau eraill sydd wedi'u cynllunio gerllaw hefyd yn golygu y bydd yr effaith yn waeth fyth.

Am y rhesymau hyn, gofynnaf yn barchus i Gyngor Sir Caerfyrddin beidio â chynnwys safleoedd SR/069/001 a SR/069/003 yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Gofynnaf hefyd am gadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi derbyn y gwrthwynebiad hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Mirain Francis

**Objection to the Allocation of the Land behind Clos Benallt Fawr in the Local Development Plan (LDP)**

**Site:** Land behind Clos Benallt Fawr, Fforest (SR/069/001 and SR/069/003)

I wish to submit a formal objection to the inclusion of sites SR/069/001 and SR/069/003 in the Carmarthenshire Local Development Plan.

I do not believe there is a need to develop this land. Carmarthenshire County Council has previously stated that no additional land is needed for housing in the Fforest and Hendy area. Empty properties across the

county should be brought back into use before allocating more land for development. When the extension to Clos Benallt was approved, it was said that the new homes were intended for local people. However, this does not appear to have been achieved.

As a Welsh-speaking family, we have seen a noticeable decline in the use of the Welsh language within our community over recent years. Very few of the people who have moved into the recent development speak Welsh, and further development is likely to make this worse. The Council should carefully consider the impact that any new development would have on the Welsh language and use the most up-to-date evidence before making a decision.

The land itself is also unsuitable for development. It is wet grazing land with long-standing drainage problems, and underground springs keep the ground waterlogged throughout the year. During the construction of the previous Clos Benallt development, there were problems with some foundations sinking, which required additional engineering work. The land also slopes down towards the River Loughor, an area with a well-known history of flooding. Under TAN 15, the Council has a duty to ensure that new development does not increase the risk of flooding or surface water problems. This is particularly important as the drainage system serving the recent development has already overflowed.

Traffic is already a major problem in the area. The recent development has brought more vehicles onto the local roads, and the A48, the A4138 and Fforest Road are already very busy. Access to Clos Benallt can be difficult, and further housing would only make the situation worse.

The site is also close to a Site of Special Scientific Interest (SSSI). Building on this land would harm wildlife, result in the loss of valuable agricultural land and damage the rural character of the area.

As a local resident, I experienced significant disruption during the previous construction work. There was constant building noise, heavy traffic and long queues of lorries left idling for extended periods. This had a clear impact on residents’ quality of life, and the same problems are likely to occur again if further development is allowed.

In my view, Fforest and Hendy have already experienced enough development. The local roads and infrastructure are not able to cope with more housing, and other proposed developments nearby will place even greater pressure on the area.

For these reasons, I respectfully ask Carmarthenshire County Council not to allocate sites SR/069/001 and SR/069/003 within the Local Development Plan.

I would also appreciate written confirmation that you have received this objection.

Yours faithfully,

Mirain Francis.

Sent from my iPhone